DYMA

WRECSAM













DARGANFYDDWCH WRECSAM. EICH FFORDD CHI.

Mae'r tîm yn 'Dyma Wrecsam' yn frwdfrydig am gysylltu'r llefydd gwych hyn i wneud ein hardal ni'n lle braf ac i ddangos y bobl a chynhwysion tu ôl i brofiadau gwych i ymwelwyr.

info@thisiswrexham.co.uk
Rhif ffôn: 01978 292015

#DymaWrecsam

I archwilio ein hardal ehangach, ewch i:
www.croeso.cymru/cy

Partneriaeth twristiaeth Dyma Wrecsam
EssentialsMAG
www.essentialsmag.co.uk
mewn cydweithrediad â
Zebra Marketing & Communications
www.zebra-comms.co.uk

Ffotograffiaeth:
© Partneriaeth twristiaeth 'Dyma Wrecsam'
Llun ar y clawr: **Joe Bickerton**

Mae'r holl ddyddiadau, amseroedd, URL a rhifau ffôn yn gywir ar adeg argraffu'r ddogfen.

Argraffir y llyfryn hwn ar Woodforce, gan goedwigoedd sy'n cael eu rheoli'n gyfrifol. Gellir ei ailgylchu 100%.

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government


12


20


26


10


22



16

CYNNWYS

THIS IS WRECSAM

4 **DYMA WRECSAM**
Deall pam bod Wrecsam yn un o gyrchfannau hanfodol y DU

8 **10 ATYNIAD GORAU WRECSAM**
Rhai o'r atyniadau a llefydd gorau i ymweld sydd wedi'u hargymell gan y rhai sydd yn gwybod

10 **DYMA YW ANTUR**
O'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) i safleoedd o ddiddordeb hanesyddol a diwylliannol, cofiwch am dirlun hyfryd y sir

12 **DYMA YW DARGANFOD**
Beth bynnag yw'r tywydd, mae digon i'w wneud o orielau ac amgueddfeydd, ac atyniadau i'r teulu

16 **DYMA YW EGNI**
Mae Wrecsam yn cynnig ystod eang o weithgareddau chwaraeon, ac nid pêl-droed yn unig - wylio neu ei chwarae - rygbi, tenis, golff i bysgota a rasio ceffylau

20 **DYMA YW RHYFEDDOD**
Cestyll a ffosydd i gwaith haearn a chychod camlas, mae'r ardal yn llawn hanes - hen a modern

22 **DYMA YW BLAS**
Mae dewis gwych o dafarndai, caffis a bwytai, mae Wrecsam yn arddangos nifer o gynhyrchwyr bwyd a diod leol

24 **DYMA BROFIAD**
Ewch ar daith o amgylch y ddinas a phrofi'r cyfan, o fwyd i bêl-droed a chelf sy'n addurno strydoedd hanesyddol y ddinas

26 **DYMA LE I YMLACIO**
Gallwch aros mewn ystod eang o lety hunanarlwyo, Gwely a Brecwast, gwestai, gwersylla, glampio a mwy

28 **DYMA GYMUNED**
Mae Wrecsam yn cynnal gwyliau cyffrous pob blwyddyn gan gynnwys digwyddiadau cerddoriaeth rhyngwladol, gwyliau llyfrau a strafagansas bwyd a diod

30 **DYMA FODDHAD**
Mae gan Wrecsam llawer o siopau annibynnol a siopau stryd fawr, gydag ystod o siopau crefftau a siopau fferm ymhellach

32 **DYMA NI**

36 **DYMA WRECSAM MEWN LLUNIAU**
10 Lleoliad gorau yn Wrecsam ar gyfer lluniau Instagram

38 **DOD O HYD I'CH FFORDD O GWMPAS**
Canol y ddinas
Bwrdeistref Sirol Wrecsam

DYMA WRECSAM



"GYDA'N GILYDD YN WRECSAM"

Mae'r Gymraeg a diwylliant Cymru'n bwysig iawn i Wrecsam

CROESO I **WRECSAM!**

Cafodd Wrecsam statws dinas yn 2022. Fodd bynnag, mae tref Wrecsam yn parhau i fod yn ganolog. Mae'n ddinas fywiog a modern ond hefyd yn llawn hanes ac yn parhau'n ffyddlon i'w gwreiddiau, gyda hanes diwydiannol dal yn amlwg heddiw.

Mae digon i'w gynnig i ymwelwyr yn Wrecsam, naill ai os ydych yn ymweld am ychydig o oriau, ychydig o ddyddiau neu fwy. Mae diwylliant, treftadaeth, cerddoriaeth, celf a gwyddoniaeth yn ogystal â bwyd a diod lleol sydd yn chwarae eu rhan i wneud yr ardal yn un mor amrywiol.

Mae Wrecsam hefyd yn gartref i **Glwb Pêl-droed Wrecsam** sy'n fyd enwog, sy'n galw'r stadiwm pêl-droed rhyngwladol hynaf yn gartref iddo. Ar hyn o bryd, mae Wrecsam yn ymgeisio i fod yn **Ddinas Diwylliant y DU yn 2029**. Bydd yr ymgyrch hon yn arddangos ein tapestri diwylliannol cyfoethog, ein cymunedau amrywiol a'n talent sy'n cyfoethogi arlwy ymwelwyr Wrecsam. Mae ardaloedd o Tirweddau Cenedlaethol, tirnodau hanesyddol a Safle Treftadaeth y Byd **UNESCO**.

Yn wir, mae rhywbeth at ddant pawb.

DYMA WRECSAM



RYDYM YN **GYFEILLGAR IAWN**

Edrychwn ymlaen at gyflwyno ein dinas i chi.
Lle bynnag rydych wedi dod, cewch groeso cynnes

Mae poblogaeth Wrecsam yn oddeutu 136,000 o bobl

Awyrennau, trenau a cheir

Hedfan i **Fanceinion** neu **Lerpwl**? Mae Wrecsam llai nag awr i ffwrdd. Mae rhwydwaith ein ffyrdd yn dda, gyda'r A483 ac A55 yn ein cysylltu. Hefyd mae gennym orsaf rheilffordd wedi'i leoli yn gyfleus yn y dref.







O fewn cyrraedd agos

Mae'n daith hawdd o ddinasoedd **Caer, Lerpwl** a **Manceinion**, sydd ond dros y ffin. Neu mae **Croesoswallt**, ein tref gyfagos, ond yn 16 milltir i ffwrdd, ac mae'r **Amwythig** yn llai nag awr gyda thrên neu gar.



Peidiwch â gwibio heibio

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n cymdogion yn **Sir y Fflint** a **Sir Ddinbych** i arddangos ein hardal hyfryd. Hyd yn oed os yw'ch cyrchfan derfynol ymhellach i mewn i Ogledd Cymru - efallai antur yn **Eryri** - mae gwerth gwyro i Wrecsam neu mae'n gweithio'n dda fel man cychwyn i grwydro ohono.

10 ATYNIAD GORAU WRECSAM

Gormod o ddewis? Dyma gip ar rai o'r atyniadau a llefydd gorau i ymweld yn Wrecsam, sydd wedi'u hargymell gan y rhai sydd yn gwybod



01

Traphont Ddŵr Pontcysyllte

Mae'r draphont ddŵr, sydd â llysenw **'Afon yn yr Awyr'** yn cario camlas Llangollen 126 troedfedd o uchder uwchben yr Afon Dyfrdwy ac yn Safle Treftadaeth y Byd UNESCO.



02

Tŷ Pawb

Agorwyd yn 2018 ac mae **Tŷ Pawb** yn adnodd cymunedol diwylliannol sydd wedi ennill sawl gwobr, sy'n dod â'r celfyddydau a'r marchnadoedd ynghyd yn yr un lle.

03

Xplore! Y Ganolfan Darganfod Gwyddoniaeth

Mae **Xplore!** yn cyflwyno gwyddoniaeth a hwyl trwy dros 100 o arddangosfeydd rhyngweithiol, gan gynnwys Planetariwm newydd, gan ddod â rhyfeddodau'r gofod yn fyw.



04

Castell y Waun

Yn ogystal â chastell Merswr o'r 13eg ganrif, mae **Castell y Waun** yn cynnwys gerddi, ystâd a fferm.



05

CPD Wrecsam

Ni fyddai ymweliad i Wrecsam yn gyflawn heb ymweld â stadiwm pêl-droed rhyngwladol hynaf yn y byd.



"CRWYDRO O AMGYLCH WRECSAM I GAEL DIWRNOD ALLAN DIDDOROL"

"Darn bach o nefoedd ar y ddaear"



06

Dyffryn Ceiriog

Ewch am dro i Ddyffryn Ceiriog, a mwynhewch letygarwch **the Hand** yn **Llanarmon**.



07

Amgueddfa Dau Hanner

YN AGOR HYDREF 2026: Bydd atyniad cenedlaethol o'r radd flaenaf yn Wrecsam, **Amgueddfa Dau Hanner**, yn arddangos Amgueddfa Bêl-droed Cymru ac Amgueddfa newydd Wrecsam.



08

Eglwys Blwyf Sant Silyn

Dyma adeilad rhestredig Gradd 1 sy'n cael ei gydnabod fel un o'r enghreifftiau mwyaf coeth o bensaernïaeth eglwysig yng Nghymru.

09

Erddig

Dewch i grwydro o amgylch y plasty, y gerddi a'r ystâd boblogaidd sy'n llawn hanesion am y teulu a fu'n byw yma a'u staff.



10

Stori Brymbo

Mae **Stori Brymbo** yn mynd â chi ar daith unigryw i ddarganfod dros 300 miliwn o flynyddoedd o hanes ac arloesi.



DYMA YW ANTUR



Traphont Ddŵr Pontcysyllte

CYMRWCH EICH AMSER I ARCHWILIO **WRECSAM**

Tu hwnt i ganol y ddinas, mae llawer o bethau i ganfod yn y sir. O fryniau a llwybrau camlas i lan afonydd a thir fferm, mae'r cefn gwlad yn amrywiol ac yn llawn. Mae digon o lwybrau cerdded ar draws y sir, gan gynnwys taith gerdded gylchol yn Nhŷ Mawr

Sut bynnag yr ydych chi'n teithio

Mae llawer i'w archwilio os ydych naill ai'n gyrru o gwmpas, cerdded, beicio neu farchogaeth. Ac os yw nofio gwyllt, caiacio neu badlfyrddio at eich dant, yna gallwn ddarparu ar gyfer hynny hefyd.

Edrychwch am fywyd gwyllt lleol



Lleoliad hyfryd ar gyfer eich antur

Mae **Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy** yn Dirwedd Genedlaethol ac mae'n cynnig 390 cilomedr sgwâr o dirweddau rhyfeddol, rhan fawr ohoni wedi'i lleoli ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.





Coetir hynafol a phyllau naturiol

Mae gan **Goed Plas Power** 33.7 hectar o goetir hynafol sy'n rhedeg ar hyd **Afon Clywedog** rhwng Coed-poeth a'r **Bers**, tra bod ei gored yn fan trochi gwyllt poblogaidd.



Y Bers

Wedi'i leoli ger **Afon Clywedog**, mae'r **Bers** yn ganolfan ddiwydiannol mawr a hanesyddol yn yr ardal, ond er hyn, mae'r pentref yn parhau i gadw ei ymdeimlad gwledig.



Llwybr Clywedog

Mae **Llwybr Clywedog** yn cynnwys **Dyfroedd Alyn**, Parc Gwledig fwyaf yn ardal Wrecsam, a **Mwyngloddiau Plwm Minera**, sy'n cynnig cipolwg diddorol i'w orffennol diwydiannol.



Bryniau Clwyd

Mae tirwedd drawiadol **Bryniau Clwyd** yn cynnig heddwch a thawelwch i ymwelwyr.



Dyffryn Ceiriog

Disgrifir fel ***"Darn bach o nefoedd ar y ddaear"*** gan David Lloyd George, mae'r ardal yn llawn llwybrau cerdded a beicio gwych.

DYMA YW DARGANFOD

BETH BYNNAG SY'N MYND **A'CH BRYD**



Castell y Waun

Gwyddoniaeth neu natur, hanes, neu ffantasi, beth bynnag yw'r tywydd, mae digon i'w wneud, orielau ac amgueddfeydd, ac atyniadau ar gyfer y teulu



Neuadd Erddig



Traphont y Waun

Castell y Waun yw'r castell olaf yng Nghymru o deyrnasiad Edward I sydd dal yn cael ei feddiannu heddiw

DYMA YW DARGANFOD

Mae Castell y Waun yn adnabyddus am y gerddi sydd â llwyni ywen trwsiadus, borderi blodau, gerddi cerrig a therasau. Saif ynghanol parciau a grëwyd yn y ddeunawfed ganrif



Prydferthwch a hanes i bawb

Mae'r **Ymddiriedaeth Genedlaethol** yn un o elusennau cadwraeth fwyaf yn Ewrop ac yn gofalu am natur, prydferthwch a hanes i bawb fwynhau. Mae ganddi nifer o eiddo syfrdanol yn yr ardal, gyda **Chastell y Waun** a **Neuadd Erddig** yn ddau o'r rhai mwyaf poblogaidd i ymweld.

Mynediad am ddim i dir parc

Mae **Neuadd Erddig** yn dŷ gwledig o'r ail ganrif ar bymtheg, a gafodd ei arbed rhag ei ddymchwel yn y 1970au. Dewch i grwydro o amgylch y plasty, y gerddi a'r ystâd boblogaidd sy'n llawn hanesion am y teulu a fu'n byw yma a'u staff.







Ymweld â Chaer Canoloesol fendigedig

Mae **Castell y Waun** yn gastell Merswr o'r drydedd ganrif ar ddeg, ac yn cynnwys 5.5 erw o erddi sydd wedi ennill gwobrau, 480 erw o dir parc gwaith, model fferm o'r ddeunawfed ganrif, siop, caffi, a mannau chwarae wedi'u curadu gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.



Ewch i Ganolfan Gwybodaeth i Ymwelwyr Wrecsam i gael gwybod am fwy o bethau i'w gwneud!



Parciau Gwledig a Mwyngloddiau Plwm

Ewch i weld rhai o barciau gwledig a Phyllau Plwm y Mwynglawdd sy'n rhoi cipolwg diddorol ar hanes diwydiannol Dyffryn hardd Clywedog.



Traphont Ddŵr Pontcysyllte

Mae'r Safle Treftadaeth y Byd yn 126 troedfedd o uchder uwchben **Afon Dyfrdwy**, ac os ydych naill ai'n cerdded, beicio, neu'n morio ar draws, mae hwn yn groesiad bythgofiadwy.



Xplore!

Mae **Xplore!** yn Ganolfan Darganfod Gwyddoniaeth, sydd gyda mwy na 100 o arddangosfeydd rhyngweithiol ymarferol. Mae wedi cael ei ddylunio i herio dealltwriaeth ymwelwyr o wyddoniaeth.



Teithiau Cwch Anglo Welsh

Ym **Masn Trefor** gallwch logi cwch camlas am daith dydd neu ar gyfer taith hirach. Neu mynd ar daith i **Seren Fach**, sydd gyferbyn â **Thraphont Ddŵr Pontcysyllte**.



Stori Brymbo

Un o atyniadau ymwelwyr mwyaf newydd Wrecsam sy'n cael ei arwain gan y gymuned, mae **Stori Brymbo** yn ddathliad o natur, diwydiant a'r bobl leol gyda'r unig gloddio byw yn y DU o goedwig ffosilau 314 miliwn o flynyddoedd oed.

DYMA YW EGNI



Canolfan Tennis a Padel Wrecsam



SGORIO'N DDA GYDA **CHWARAEON**

Ar ôl codi trwy dair adran, mae Clwb Pêl-droed Wrecsam yn parhau i greu cyffro yn y gymuned bêl-droed, ond nid pêl-droed yw'r unig gamp yn y ddinas. Edrychwch ar ein rhestr o wyth camp wych i'w gwylio neu eu chwarae!

Pêl-droed

Mae'r timau dynion a merched yng **Nghlwb Pêl-droed Wrecsam** yn werth eu gwylio (Dewch 'mlaen, y Dreigiau!), neu efallai y byddwch chi'n dod o hyd i rai timau llawr gwlad i'w gwylio hefyd, fel **Wrexham City Foresters**.

Rygbi

Roedd Wrecsam yn arfer bod yn gartref i dîm Rygbi'r Gynghrair, **North Wales Crusaders**. Mae gan y tîm dal ddilynwyr yn y ddinas, ond mae'r tîm bellach yn hyfforddi ym Mae Colwyn. Fodd bynnag, gallwch dal ymweld â **Chlwb Rygbi Wrecsam**, lle mae tîm yr Undeb yn chwarae.

Bydd ailddatblygu eisteddle eiconig y Kop yng Nghae Ras STōK yn cynyddu capasiti'r stadiwm i dros 18,000 yn y pen draw

DYMA YW EGNI

Mae Clwb Golff Clays yn cael ei ystyried yn eang yn un o glybiau gorau'r ardal





Tennis

Mae **Canolfan Tennis a Padel Wrecsam** ar agor i bawb ar sail talu wrth fynd. Mae ganddi gyrtiau dan do ac awyr agored ac mae'n un o'r cyfleusterau tennis mwyaf yn y DU. Mae hefyd yn cynnal digwyddiadau rhyngwladol hefyd.



Golff

Mae dewis o glybiau golff o ansawdd uchel yn Wrecsam ac o gwmpas, gan gynnwys **Clwb Golff Wrecsam** a **Chanolfan Golff Clays**. Ychydig ymhellach mae gennych **Carden Park** a **Chlwb Golff Llangollen** hefyd.



Rasio ceffylau

Awydd rhoi bet? Gyda rasys drwy gydol y flwyddyn, mae gwylio rasio neidio ym Mangor **Is-y-Coed** yn ffordd dda o dreulio'r diwrnod.



Ydi'r holl chwaraeon yma'n codi chwant arnoch chi?

Agorwyd yn 2022, mae **bwyty lal** ar Ffordd Caer yn Ganol y Ddinas yn fwyty poblogaidd sy'n cael ei weithredu gan gogyddion ifanc o Goleg Cambria.

Mae rasio wedi cael eu cynnal yng Nghae Ras Bangor Is-y-Coed ers 1859



Nofio

There is a choice of swimming pools locally, from **Waterworld** in the city centre to **Plas Madoc Leisure Centre**. Alternatively, there are plenty of options for wild swimming locations too.

Pysgota

Yn addas i bawb, mae **Pysgodfa Commonwood** yn cynnig tocynnau dydd i un o'r nifer o lynnoedd pleser, gan gynnwys o garpiaid 'dŵr rhedeg' neu bwll dynodedig i gathbysgod. Hefyd, gallwch nawr gymryd rhan mewn **Tag Laser** awyr agored yma!

Hwylio

O hwylio i gychod model a dingi, mae **Clwb Hwylio Gresffordd** 'yn debygol o fod y Clwb Hwylio lleiaf yn y byd', ond hefyd mae yn y rhestr derfynol yng ngwobr mawreddog 'Clwb y Flwyddyn 2024' Cymdeithas Hwylio Frenhinol.

DYMA YW RHYFEDDOD



DISGWYL YR **ANNISGWYL**

Mae diwylliant a threftadaeth yn Wrecsam mor amrywiol a diddorol â'r pobl sydd yn byw yma. Fodd bynnag, mae ambell beth penodol na ddylech eu methu wrth ymweld

Un o saith ryfeddodau Cymru

Mae eglwys wedi bod ar safle **Eglwys San Silyn** ers o leiaf yr unfed ganrif ar ddeg. Heddiw, fodd bynnag, mae'r adeilad yn dyddio yn bennaf ers diwedd y bymthegfed ganrif a dechrau'r unfed ganrif ar bymtheg. Cafodd y tŵr, sy'n 135 troedfedd o uchder, ei gwblhau ym 1506 ac ar ddiwrnodau penodol cewch gyfle i ddringo i'r brig. Mae'n un o'r enghreifftiau gorau o bensaernïaeth eglwysig yng Nghymru.



Eglwys San Silyn

"Gogoniant y Gororau"
Syr Simon Jenkins



Mae'r 'Amgueddfa Dau Hanner'

YN AGOR 2026: Mae'r **'Amgueddfa Dau Hanner'** yn arddangos **Amgueddfa Bêl-droed Cymru** newydd ac **Amgueddfa Wrecsam** wedi'i hailddatblygu. Wedi'i lleoli ar Stryt y Rhaglaw yn Wrecsam, mae orielau newydd wedi'u cynllunio i arddangos casgliadau Amgueddfa Wrecsam, ac mae'r amgueddfa bêl-droed newydd yn dathlu pêl-droed Cymru, ddoe a heddiw, o lawr gwlad hyd at dimau cenedlaethol. Ewch i www.wrexhamheritage.wales i gael gwybod mwy.



Theatr y Stiwt

Mae'r **Stiwt** yn gartref i theatr hardd 490 sedd, yn ogystal â 3 gofod digwyddiadau hyblyg, ac wedi ei adeiladu a'i gynnal gan ac er lles y gymuned leol. Agorwyd y tro cyntaf ar 25 Medi 1926 a chafodd ei hailadeiladu yn gyflawn a'i hailagor yn 1999.



Olwyn Pwll Glo Gresffordd

Mae'r olwyn gêr o **Bwll Glo Gresffordd** yn sefyll tu allan i Gresffordd fel cofeb i un o drychinebau pwll glo gwaethaf ym Mhrydain. Digwyddodd drychineb Gresffordd dydd Sadwrn 22 Medi 1934, pan fu i 266 o ddynion farw yn dilyn ffrwydrad dan ddaear.



Prosiect Glowyr Wrecsam

Ewch i **Amgueddfa'r Glowyr** am ddim a mynd ar daith yn ôl mewn amser i fyd o ddewrder, gwytnwch a brawdgarwch. Datgelwch straeon cudd ein gorffennol mwyngloddio a'r eneidiau dewr a'i lluniodd.

DYMA YW BLAS

Mae Wrecsam yn dod i'r amlwg fel man poblogaidd i fwyta yng Ngogledd Cymru, ac mae'n amlwg wrth edrych ar y lleoliadau isod

10 lle gorau yn Wrecsam i fwyta ac yfed

Ewch i weld rhai o'n hoff lefydd isod i roi syniad i chi o rai o sefydliadau gwych yr ydych eisiau rhoi cynnig arnynt. Neu beth am alw heibio **Tŷ Pawb** i gael bwyd stryd gwych. Neu ewch i **Ganolfan Gwybodaeth i Ymwelwyr Wrecsam** i weld beth mae cynhyrchwyr lleol yn ei werthu.





01

The Hand at Llanarmon

Wedi'i gynnwys yn y Michelin Guide, mae **The Hand at Llanarmon** yn dafarn hynafol gyda llawer o gymeriad, gydag awyrgylch cysurus ac anffurfiol a chroeso cynnes, ynghyd â chwrw iawn a bwyd blasus sydd wedi ennill gwobrau.



02

The Fat Boar

Bwyty a bar annibynnol hyfryd yng nghanol y dref. Mwynhewch goffi arbenigol, cwrw iawn, neu ddewis o winoedd, coctêls a gin, yn ogystal â nosweithiau gyda themâu a bwyd lleol.

03

Carniboar Steakhouse

Mae'n chwaer fwyty i **The Fat Boar**, ac wedi'i lleoli yng nghanol Wrecsam, mae **Carniboar** yn dŷ stecen a bwyd gridyll. Mae'n cynnig gwasanaeth gwych gyda choctêls arloesol a diodydd o ansawdd.



04

Croes Howell

Mae **Croes Howell** yn adeilad trawiadol gyda golygfeydd gwych. Mae'n dafarn gwledig i deuluoedd ac yn croesawu cŵn, yn cynnig bwyd cynnes mewn awyrgylch anffurfiol.



"DOES DIM DIFFYG LLEFYDD I FWYTA AR DRAWS Y FWRDEISTREF"



05

Bank Street Social

Tŷ coffi arbenigol, bar a gofos amlddefnydd, mae **Bank Street Social** wedi'i gynnwys yn y Independent Coffee Guide, ac yn cael ei redeg gan y brodyr Gallanders.



06

Siop Fferm Rackery

Wedi'i lleoli ar y Filltir Syth yn Llai, mae **Siop Fferm a Chaffi Rackery** yn cynnig cynnyrch lleol anhygoel i'w fwyta yno neu i fynd ag ef adref i'w baratoi eich hun.

07

Ar ôl swper, wedi iddi dywyllu

Nid oes rhaid i'ch noson orffen gyda swper. Mae gan Wrecsam fywyd nos diddorol a dewis o fariau hyfryd sy'n gweini diodydd a choctels blasus, gan gynnwys **Bar Coctel Effie, Levant** a **Vault 33**.



08

The Boat, Erbistock

Mae'n dyddio i ganol y 17eg ganrif, mae'r dafarn ochr yr afon hyfryd hwn yr holl amwynderau'r 21ain ganrif o dafarn gwledig, yn cynnig bwyd, diod a gwasanaeth gwych mewn lleoliad hyfryd.





09

The Bank Bistro

Bar a bistro annibynnol sy'n cael ei redeg gan deulu, mae brwdfrydedd y **Bank** am fwyd rhagorol cartref a gwasanaethau cwsmeriaid o'r radd flaenaf. Mae'n arbenigo mewn bwydydd tapas tymhorol a bwyd lleol.



10

Lot 11

Mae **Lot 11** yn gaffi brecinio Awstralaidd ar Hill Street yn y dref, sy'n darparu'r fwydlen fodern orau i fwyta i mewn neu i fynd. Yma ers bron i ddegawd bellach, maen rhan fawr o'n stori fwyd fodern.

DYMA BROFIAD



Wrexham's Public Art Trail

YMUNWCH Â THAITH O AMGYLCH **WRECSAM**

Ymestynnwch eich coesau ac ymuno ag un o deithiau arbennig Wrecsam i gael cipolwg ar y celfyddydau, diwylliant, bwyd a chwaraeon. O deithiau tywys mewn cerbyd i deithiau cerdded byr, mae rhywbeth at ddant pawb.

Taith Flasu Wrexham Lager

Dewch o hyd i galon hanesyddol Wrecsam ar daith lle mae hanes, bwyd a diod yn cyfuno i greu profiad bythgofiadwy. Mwynhewch ddiod o **Wrexham Lager** wedi'i pharu â phrydau wedi'u creu'n arbennig mewn detholiad o leoliadau, pob un yn arddangos cynhwysion lleol a swyn unigryw'r ddinas.



Llwybr Celf Cyhoeddus Wrecsam

Yn cysylltu ag ymgyrch **Dinas Diwylliant Wrecsam 2029**, mae'r prosiect cyffrous hwn yn cyflwyno gweithiau celf a murluniau bywiog i oleuo waliau gwag ledled canol y ddinas. Mae'r rhain yn arddangos diwylliant a threftadaeth gyfoethog ac unigryw Wrecsam, gyda themâu fel treftadaeth, marchnadoedd a diwydiant y ddinas.







CAIS DINAS DIWYLLIANT Y DU
WRECSAM2029
UK CITY OF CULTURE BID



Taith Gerdded Bwyd Wrecsam

Mae Wrecsam yn cynnig cyfuniad hyfryd o brofiadau coginio. Wrth i chi grwydro trwy'r ddinas hardd hon, byddwch chi'n cael cynnig amrywiaeth flasus o brydau a diodydd.



Taith Gerdded Dinas Wrecsam

Ymunwch â'r tywysydd Bathodyn Gwyrdd lleol **Peter Evans** wrth iddo gynnal teithiau cerdded rheolaidd ar fore Sadwrn o amgylch Canol Dinas Wrecsam. Mae'r teithiau'n para tua 90 munud.



Canllawiau Bathodyn Gwyn Wrecsam

Mae ein 11 Tywysydd Twristiaeth Bathodyn Gwyn yn llysgenhadon lleol ac wedi'u hyfforddi'n llawn i arwain teithiau proffesiynol ar draws yr ardal.

DYMA LE I YMLACIO

Whether you're here for business or pleasure, Wrexham offers a range of accommodation options for visitors to choose from

CYSGU'N DDA

Yn ddibynnol ar eich cyllideb, mae digon o ddewis o lefydd i aros, gwestai a thafarndai cyfforddus, Gwely a Brecwast diddorol, a parciau hamdden a charafanau, ysgubor gwahanol, glampio a gwersylla hefyd

Dyma un neu ddau o'n ffefrynnau:



1. The Lemon Tree
2. Golly Farm Cottages
3. Parc Gwyliau Plassey
4. Rossett Hall Hotel
5. Boutique 33
6. The Old Registry
7. The Hand at Llanarmon
8. Hotel Wrexham
9. Clays Touring Park
10. Rackery Retreat
11. Cae Haidd Retreat

DYMA GYMUNED



FOCUS Cymru

GADEWCH I'R AMSEROEDD **DA DDOD**

Mae Wrecsam yn cynnal nifer o wyliau cyffrous drwy gydol y flwyddyn. O wyliau crefftau a llenyddiaeth i garnifalau, regatas hwylio, gwyliau cerdded, gyda chynifer o wyliau mae'n sicr y bydd rhywbeth i danio'ch dychymyg

"LANSIWYD FOCUS WALES YN 2011 I GREU DIGWYDDIAD SBOTOLAU AR GYFER Y DIWYDIANT CERDDORIAETH CYMRAEG"



Rydyn ni'n falch i fod yn Gymreig ond rydyn ni wrth ein bodd yn dathlu talent ledled y byd

Cerddoriaeth a mwy

Mae **FOCUS Cymru** yn un o uchafbwyntiau calendr gwyliau blynyddol Wrecsam. Mae'n ŵyl aml-leoliad rhyngwladol sydd yn cael ei gynnal o fewn Wrecsam. Mae'n croesawu dros 20,000 o bobl i'r ddinas bob blwyddyn, mae'n benwythnos llawn o ddigwyddiadau, gyda dros 250 o artistiaid, ar draws 20 llwyfan, ac yn cynnal rhaglen lawn o sesiynau diwydiant rhyngweithiol, digwyddiadau celfyddydau ac arddangos ffilmiau.

Gŵyl WrexFest

Mae **Gŵyl WrexFest** yn ŵyl gymunedol amlddiwylliannol, sydd â'r nod o adfywio Wrecsam drwy'r Celfyddydau. Mae'n cyfuno'r celfyddydau, theatr, perfformiadau llafar, y Gymraeg a phobl Wrecsam, ond mae'n cadw ethos llawr gwlad ac yn ceisio bod yn wahanol ac yn wreiddiol.



Dickens! Mae'n Nadolig

Dyddiad allweddol ym mis Rhagfyr yw'r **Farchnad Nadolig Fictoraidd**. Mae dros gant o stondinau'n gwerthu llu o nwyddau ac anrhegion Nadoligaidd ynghyd â diddanwyr stryd Fictoraidd a charwsél traddodiadol. Cynhelir yr ŵyl rhwng Queens Square ac Eglwys San Silyn, ac mae bob amser yn beth braf i'w wneud adeg y Nadolig.

DYMA FODDHAD



Calon ardal ddiwylliannol sy'n datblygu yn Wrecsam

Siopau Canol y Dref

Yn Wrecsam, cewch nifer o ganolfannau manwerthu, gan gynnwys **Plas Coch**, **Y Werddon** ac **Dôl yr Eryrod**, lle ddewch o hyd i nifer o enwau'r stryd fawr. Hefyd yng nghanol y ddinas mae **Tŷ Pawb**, sy'n llawn o siopau annibynnol, yn gwerthu amrywiaeth helaeth o nwyddau.

MWYNHAU EICH HUNAIN

Mae gan Wrecsam dair marchnad dan do, marchnad wythnosol bob dydd Llun, a rota rheolaidd o farchnadoedd misol yng nghanol y ddinas. Yn ogystal mae'r stryd fawr a nifer o ganolfannau manwerthu



Ymhellach draw

Tu allan i Wrecsam byddwch yn dod o hyd i amrywiaeth o siopau gan gynnwys **Pentref Siopau Plassey**. Mae'r adeiladau Edwardaidd gwreiddiol yn cynnwys dros 20 o siopau gwahanol, ac yn gartref i brofiad manwerthu unigryw, gydag siopau bŵtic, crefftau cartref, gemwaith, salon gwallt a harddwch, ffasiwn merched, a siopau yn gwerthu rhoddion arbennig i chi neu deulu a ffrindiau.

Siopau a marchnadoedd fferm

Mae yna hefyd nifer o siopau fferm gan gynnwys y siopau teuluol **Siop Fferm Rackery** yn Llai a **Siop Fferm a Chanolfan Arddio Bellis Brothers** yn Holt. Mae'r ddau yn cynnig profiadau siopa unigryw a chaffis rhagorol.

Wedi'i leoli yn **Nôl yr Eryrod**, mae **The Hive Wrecsam** yn cynnig casgliad gwych o gynnyrch, yn ogystal â chownter cig lleol sy'n gwerthu cig a gyflenwir gan **Siop Gig Jamie Ward** yn y Waun. Hyn i gyd yn ogystal â digwyddiadau dros dro gwych!

Yn ogystal â'r siopau fferm, mae nifer o farchnadoedd lleol sy'n gwerthu cynnyrch ffres i'w harchwilio, gan gynnwys Marchnad y Cigyddion, y Farchnad Ganolog a marchnadoedd crefft rheolaidd bob mis.

Canolfan Wybodaeth i Ymwelwyr

Fe ddewch chi o hyd i **Ganolfan Gwybodaeth i Ymwelwyr Wrecsam** ynghanol y ddinas. Yn ogystal â meddu ar wybodaeth ar yr ardal leol, bydd dewis o gynnyrch bwyd a diod lleol ar gael yno, yn ogystal ag eitemau Wrecsam, crefftau a rhoddion Cymreig.



DYMA NI

Dyma Bartneriaid Twristiaeth Wrecsam 2026/27

EAT

Bank Street Social,
5A Bank Street, Wrecsam LL11 1AH
bankstreetsocial.co.uk

Caffi Cyfle @ Alyn Waters,
Alyn Waters Country Park, Mold Road, Wrecsam LL11 4AG
cafficyfle.org.uk

Caffi Wylfa,
Castle Road, Chirk, Wrecsam LL14 5BS
caffiwylfa.com

Carniboar Steakhouse,
38-41 High Street, Wrecsam LL13 8HY
carniboar.co.uk

Croes Howell Restaurant,
Straight Mile, Rossett, Wrecsam LL12 0NY
croeshowell.com

Effie's,
38-41 High Street, Wrecsam LL13 8HY
effiesbar.co.uk

Fat Boar Wrexham,
11 Yorke Street, Wrecsam LL13 8LW
thefatboarwrecsam.co.uk

Hickory's,
Sontley Road, Coed-y-Glyn, Wrecsam LL13 7EN
hickorys.co.uk

Hill St. Social,
10 Hill Street, Wrecsam LL11 1SN
@hillstreetsocial

Humble & Whole,
Machine House, Chester Road, Rossett, Wrecsam LL12 0HW
humbleandwholebakery.org

La Baguette,
62 Regent Street, Wrecsam LL11 1RE
labaguetteco.co.uk

Levant Kitchen and Bar,
49-52 Chester Street, Wrecsam LL13 8BA
levantwrexham.co.uk

Lot 11,
11 Hill Street, Wrecsam LL11 1SN
lot11cafe.co.uk







Ma Baker Bakes,
18 High Street, Wrecsam LL13 0DT
mabaker.uk

Maesgwyn Hall,
Mold Road, Wrecsam LL11 2AF
mghall.co.uk

Magic Dragon Tap,
13 Charles Street, Wrecsam LL13 8BT
magicdragonbrewing.com

Rackery Farm Shop,
Straight Mile, Llay, Wrecsam LL12 0NY
rackeryfarmshop.co.uk

Reggies Artisan Kitchen and Bakery,
45 Chester Street, Wrecsam LL13 8BA
@reggieswxm

Tabernacl,
1-2 Hope Street, Wrecsam LL11 1BG
hopestreet.church

The Bank,
43 High Street, Wrecsam LL13 8HY
thebankwrexham.com

The Boat at Erbistock,
Erbistock, Wrecsam LL13 0DL
theboataterbistock.co.uk

The Buck House,
High Street, Bangor-on-Dee,
Wrecsam LL13 0BU
thebuck.pub

Vault 33,
33 High Street, Wrecsam LL13 8HY
vault33wrexham.co.uk

Wrexham Lager Club,
1 Union Road, Wrecsam LL13 7SR
wrexhamlager.club

VISIT

'Amgueddfa Dau Hanner',
County Buildings, Regent Street,
Wrecsam LL11 1RB
@wrexhammuseum

Bangor-on-Dee Racecourse,
Althrey Court, Bangor-on-Dee,
Wrecsam LL13 0DA
bangorondeeraces.co.uk

Chirk Castle National Trust,
Chirk Castle, Chirk LL14 5AF
nationaltrust.org.uk/visit/wales/chirk-castle







Clays Golf Club,
Bryn Estyn Road, Wrecsam LL13 9UB
claysgolf.co.uk

Erddig National Trust,
Erddig, Wrecsam LL13 0YT
nationaltrust.org.uk/visit/wales/erddig

Felting with Ewe
Trevalyn, Rossett, Wrecsam
www.feltingwithewe.com

Minera Lead Mines,
Minera, Wrecsam LL11 3DU
groundworknorthwales.org.uk

St Giles Church,
Church Street, Wrecsam LL13 8LS
stgilesparishchurchwrexham.org.uk

Theatr y Stiwt,
Broad Street, Rhosllanerchrugog,
Wrecsam LL14 1RB
stiwt.com

Stone Circle Mead Company,
134 Rhosnesni Lane, Wrecsam
LL12 7NB
stonecirclemeadcompany.co.uk

Stori Brymbo,
New High Street, Brymbo,
Wrecsam LL11 5AX
storibrymbo.co.uk

Tŷ Pawb,
Market Street, Wrecsam LL13 8BB
typawb.wales

Wrexham Lager Brewery,
42 St Georges Crescent, Wrecsam
LL13 8DB
wrexhamlager.co.uk

Wrexham Miners Project,
3 Maesgwyn Road, Wrecsam
LL11 2AP
wrexhamminersproject.co.uk

Wrexham Visitor Information Centre
Chester Street, Wrecsam LL13 8BE
thisiswrexham.co.uk

Xplore Science Centre,
17 Henblas Street, Wrecsam
LL13 8AE
xplorescience.co.uk



DYMA NI

Dyma Bartneriaid Twristiaeth Wrecsam 2026/27

STAY

Acorn Commonwood,
Buck Road, Holt, Wrecsam LL13 9TF
commonwoodleisure.com

Boutique 33,
33 High Street, Wrecsam, LL13 8HY
boutique33wrexham.co.uk

Cae Haidd Retreat,
Old Road, Bwlchgwyn, Wrecsam LL11 5UF
@caehaiddretreat

Clays Touring Park,
Bryn Estyn Road, Wrecsam LL13 9UB
claystouringpark.co.uk

Golly Farm Cottages,
Golly, Rossett, Wrecsam LL12 0AL
gollyfarm.co.uk

Hotel Wrexham,
Wrecsam Road, Holt, Wrecsam LL13 9SW
hotelwrexham.co.uk

Plassey Holiday Park,
The Plassey, Eyton, Wrecsam LL13 0SP
plassey.com

Rackery Retreat,
Rackery Lane, Llay, Wrecsam LL12 0GD
rackeryretreat.com

Rossett Hall Hotel,
Chester Road, Rossett, Wrecsam LL12 0DE
everbrightgrouphotels.com/rossett-hall-hotel

The Hand at Llanarmon,
Llanarmon DC, Ceiriog Valley, Llangollen LL20 7LD
thehandhotel.com

The Lemon Tree,
29 Rhosddu Road, Wrecsam LL11 2LP
thelemontree.org.uk

The Old Registry,
23 Chester Street, Wrecsam LL13 8BG
@theoldregistrywxm

EXPLORE

Chester & North Wales Multilingual Tours
tourchesterwales.com

Pete Evans Tourist Guide
peteevanstouristguideandauthor.com

Pure Wales
pure.wales

Tour Guide Katie
britainsbestguides.org/guides/katie-crowther

VIP Wrexham Tours
vipwrexhamtours.com

Walking Food Tours UK
walkingfoodtoursuk.co.uk

Welcome to Wrexham Tours
wrexham-tours.co.uk

Wrexham Chauffeurs
wrexhamchauffeurs.co.uk

Wrexham City Tours
wrexhamcitytours.com







CWRDD Â'N PARTNERIAID




GEAR UP FOR ADVENTURE
Let your feet do the talking in Shropshire
Shropshire is one of England's least densely populated counties. It's a deeply rural part of the world. Encompassing verdant hills, ancient woodlands, windswept moorland and mysterious lakes, the scenery can be spectacular. A quarter of the county is covered by the Shropshire Hills Area of Outstanding Natural Beauty, much of which is just as beautiful as our national parks.
Pretty much the whole of Shropshire is fantastic for walking. The countryside is criss-crossed with nearly 3500 miles of footpaths, bridleways and byways, and there are also several long-distance walking routes to throw into the mix. The 200-mile-long Shropshire Way spreads in a figure of eight loop over the county. Some 28 miles of Offa's Dyke Path National Trail passes through Shropshire.
IN SHROPSHIRE
WWW.VISITSHROPSHIRE.CO.UK


north wales THE adventure CAPITAL
go north wales
www.gonorthwales.co.uk


Gwlad, Gwlad.
This is Wales.
Mewn hwyl ma 'na hud.
Feel the hwyl in Wales.
Cynlluniwch eich gwyliau ar croeso.cymru
Start planning your holiday at visitwales.com
Bae'r Tri Chlogwyn, Gwyr, Gorllewin Cymru
Three Cliffs Bay, Gower, West Wales


Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol
3 Sir Gysylltiedig
3 Counties Connected
Community Rail Partnership
Where will you go?
Connecting the communities of
Shropshire, Wrexham and Cheshire
to their railway.
3countiesconnected.org.uk

DYMA NI



Er mwyn eich helpu i lywio'ch ymweliad, mae gennym grŵp o dywyswyr bathodyn gwyn a gwyrdd swyddogol wrth law i gynllunio'ch ymweliad i sicrhau eich bod yn gweld y golygfeydd gorau tra byddwch chi yma. O'r bloeddio nerthol yng **Nghae Ras STōK** pan fydd **Clwb Pêl-droed Wrecsam** yn chwarae gartref, i dawelwch ein Safle Treftadaeth y Byd UNESCO 11 milltir ar hyd **Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte**, mae gan ein sir rywbeth at ddant pawb.



TREFNIADAU TEITHIO **MEWN GRŴP**

Rydyn ni'n croesawu trefniadau teithio mewn grŵp i brofi ein teithiau, diwrnodau allan ac arosiadau dros nos.

Mae gennym amrywiaeth o deithiau cyffrous, gan gynnwys:

Taith Flasu Wrexham Lager

Mae hyn yn cynnwys bragdy enwog **Wrexham Lager, Eglwys Blwyf San Silyn** a chwrw a phrydau lleol wedi'u paratoi'n ffres ar y ffordd mewn llefydd fel **The Bank** a **Vault 33**.

Teithiau tywys canol y ddinas

Ein teithiau tywys rheolaidd yng Nghanol y Ddinas sy'n ymweld â'r tirnodau allweddol ledled y ddinas.

'Croeso i Wrecsam' a 'Teithiau Dinas Wrecsam'

Ar gyfer dilynwyr pêl-droed, mae ein teithiau **'Croeso i Wrecsam'** a **'Teithiau Dinas Wrecsam'** yn ymweld â'r mannau eiconig sydd i'w gweld yn y gyfres ddogfen Disney+ 'Welcome to Wrexham'.

Taith Gerdded Bwyd Wrecsam

Dewch i'n taith Gerdded Bwyd Wrecsam reolaidd – rhaid archebu lle ymlaen llaw!

Y tu hwnt i'r ddinas, gallwn hefyd eich cynorthwyo gyda thywyswyr mewn cerbydau preifat o **Wrexham Chauffeurs** a nifer o deithiau pwrpasol, gan gynnwys safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, **Castell y Waun** a **Neuadd Erddig**.

DYMA WRECSAM MEWN LLUNIAU



10 Lleoliad gorau yn Wrecsam ar gyfer lluniau Instagram

1. Ewch ar daith i **Barc Gwledig Tŷ Mawr** a chwilio am ei lythrennau WRECSAM
2. Galwch heibio yn y **Ganolfan Gwybodaeth i Ymwelwyr** i nôl map ar gyfer y Llwybr Defaid o amgylch y ddinas.
3. Dilynwch **lwybr murluniau Canol y Ddinas** ac olrhain pob stop gyda thystiolaeth ffotograffig
4. Ni fyddai unrhyw daith i Wrecsam yn gyflawn heb lun y tu allan i gae eiconig **Clwb Pêl-droed Wrecsam** a diod yn **The Turf**
5. Ar ben y byd – neu o leiaf ar ben **Traphont Ddŵr Pontcysyllte**
6. Dringwch y 149 o risiau i fyny'r tŵr i mewn **San Silyn** a chael llun o ben un o saith rhyfeddod Cymru
7. Yn addas ar gyfer brenin? Mae gan **Gastell y Waun** ddigon o fannau teilwng i Instagram
8. Edrychwch allan am ein comisiynu arbennig o lythrennau **WRECSAM**, a ddyluniwyd gan y cerflunydd lleol, Simon O'Rourke, a fydd yn teithio'r sir dros y misoedd nesaf
9. Ymunwch â'r glöwr a'r gweithiwr dur yn **Yr Arc**
10. Ewch i draphont ddŵr arall, gydag ymweliad â **Thraphont Ddŵr y Waun**, sy'n dathlu ei 225ain flwyddyn yn 2026













THIS IS

WRECSAM

– GOBEITHIO EICH BOD WEDI MWYNHAU EICH ARHOSIAD!